Rhybudd Digwyddiad Dros Dro

Cyn llenwi'r rhybudd hwn, darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd ar ddiwedd y rhybudd, os gwelwch yn dda. Os ydych yn cwblhau'r rhybudd hwn mewn llawysgrifen, ysgrifennwch yn eglur mewn priflythrennau bloc os gwelwch yn dda. Ym mhob achos, sicrhewch bod eich atebion y tu mewn i'r blychau ac wedi'u hysgrifennu neu wedi eu teipio mewn inc du. Defnyddiwch ddalennau ychwanegol os oes angen.

Dylech gadw copi o'r rhybudd a gwblhawyd ar gyfer eich cofnodion eich hun. Mae'n rhaid i chi anfon dau gopi o'r rhybudd hwn at yr awdurdod trwyddedu a rhaid anfon copi ychwanegol at brif swyddog yr heddlu yn yr ardal ble mae'r eiddo wedi'i leoli. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ardystio un o'r ddau gopi a'i ddychwelyd atoch fel cydnabyddiaeth o'i dderbyn.

Rwyf i, defnyddiwr bwriedig yr eiddo, drwy hyn yn rhoi rhybudd o dan adran 100 o'r Ddeddf Drwyddedu 2003 o'm cais i gynnal gweithgaredd dros dro yn yr eiddo a ddisgrifir isod.

1. Manylion personol defnyddiwr yr eiddo (Darllenwch nodyn 1 os gwelwch yn dda)				
1. Eich enw				
Teitl Cyfenw Enwau cyntaf	Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)			
2. Enwau blaenorol (Nodwch unrhyw fanylion ynghylch unrhyw enwau blaenorol neu enwau cyn priodi os gwelwch yn dda, os yn berthnasol. Ychwanegwch dudalen ychwanegol os oes angen, os gwelwch yn dda)				
Teitl Cyfenw Enwau cyntaf	Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)			
3. Eich dyddiad geni		Diwrnod	Mis	Blwyddyn
4. Eich man geni				
5. Rhif Yswiriant Cenedlaethol				
6. Eich cyfeiriad presennol (Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn ar gyfer gohebiaeth oni bai eich bod yn llenwi'r blwch gohebiaeth ar wahân isod)				
Tref bost		Cod post		
7. Manylion cyswllt eraill				
Rhifau ffôn Yn ystod y dydd Gyda'r nos (dewisol) Ffôn symudol (dewisol)				
Rhif ffacs (dewisol)				
Cyfeiriad E-bost (dewisol)				
8. Cyfeiriad gwahanol ar gyfer gohebiaeth (Os ydych yn llenwi'r manylion isod, byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn i ohebu â chi)				

Tref bost	Cod post
9. Manylion cyswllt gwahanol (os yw'n berthnasol)	
Rhifau ffôn Yn ystod y dydd Gyda'r nos (dewisol) Ffôn symudol (dewisol)	
Rhif ffacs (dewisol)	
Cyfeiriad E-bost (dewisol)	

2. Yr eiddo
Rhowch gyfeiriad yr eiddo ble'r ydych yn bwriadu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy os gwelwch yn dda, neu os nad oes ganddo gyfeiriad rhoddwch ddisgrifiad manwl (yn cynnwys y cyfeirnodau Arolwg Ordnans) (Darllenwch nodyn 2 os gwelwch yn dda)
Os ydych yn bwriadu defnyddio rhan o'r eiddo yn unig yn y cyfeiriad hwn neu'n bwriadu cyfyngu'r man ble bydd y rhybudd hwn yn weithredol, rhowch ddisgrifiad a manylion isod os gwelwch yn dda. (Darllenwch nodyn 3 os gwelwch yn dda)
Disgrifiwch natur yr eiddo isod os gwelwch yn dda. (Darllenwch nodyn 4 os gwelwch yn dda)
Disgrifiwch natur y digwyddiad isod os gwelwch yn dda. (Darllenwch nodyn 5 os gwelwch yn dda)

3. Y gweithgareddau sydd angen trwydded		
Nodwch y gweithgareddau sydd angen trwydded yr ydych yn bwriadu eu cynnal yn yr eiddo, os gwelwch yn dda. (Marciwch “X” wrth ymyl y gweithgareddau sydd angen trwydded yr ydych yn bwriadu eu cynnal os gwelwch yn dda). (Darllenwch nodyn 6 os gwelwch yn dda)		
Gwerthu alcohol drwy adwerthu		☐
Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i aelod o'r clwb, neu yn ôl archeb aelod o'r clwb		☐
Darparu adloniant rheoledig		☐
Darparu lluniaeth hwyr yn y nos		☐
Nodwch y dyddiadau yr ydych yn bwriadu defnyddio'r eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy os gwelwch yn dda. (Darllenwch nodyn 7 os gwelwch yn dda)		
Nodwch yr amseroedd yn ystod cyfnod y digwyddiad y bwriadwch gynnal gweithgareddau trwyddedadwy os gwelwch yn dda (rhowch yr amseroedd ar sail cloc 24 awr os gwelwch yn dda). (Darllenwch nodyn 8 os gwelwch yn dda)		
Nodwch uchafswm nifer y bobl ar unrhyw amser penodol yr ydych yn bwriadu rhoi caniatâd iddynt fod yn bresennol ar yr eiddo yn ystod yr amseroedd pan rydych yn bwriadu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy os gwelwch yn dda, yn cynnwys unrhyw staff, trefnwyr neu berfformwyr. (Darllenwch nodyn 9 os gwelwch yn dda)		
Os yw'r gweithgareddau trwyddedadwy yn cynnwys cyflenwi alcohol, nodwch, os gwelwch yn dda, pa un ai a fydd y cyflenwad ar gyfer ei yfed ar yr eiddo ynteu oddi arno, neu'r ddau (marciwch “X” yn ymyl y blwch priodol os gwelwch yn dda). (Darllenwch nodyn 10 os gwelwch yn dda)	Ar yr eiddo'n unig	☐
	Oddi ar yr eiddo'n unig	☐
	Y ddau	☐

4. Deiliaid trwydded bersonol (Darllenwch nodyn 11 os gwelwch yn dda)		
A ydych yn dal trwydded bersonol ddilys ar hyn o bryd? (Marciwch “X” yn y blwch sy'n briodol i chi os gwelwch yn dda)	Ydw ☐	Na ☐
Os mai'r ateb yw “Ydw” rhowch fanylion am eich trwydded bersonol isod os gwelwch yn dda.		
Awdurdod sy'n rhoi'r drwydded		

Rhif trwydded Dyddiad ei rhoi Dyddiad terfyn Unrhyw fanylion perthnasol pellach	

5. Rhybuddion digwyddiadau dros dro blaenorol yr ydych wedi eu rhoi (Darllenwch nodyn 12 os gwelwch yn dda)		
A ydych wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro blaenorol yn achos unrhyw eiddo ar gyfer digwyddiadau sydd yn yr un flwyddyn galendr â'r digwyddiad yr ydych yn awr yn rhoi rhybudd digwyddiad dros dro yn ei gylch? (Marciwch “X” yn y blwch sy'n briodol i chi os gwelwch yn dda)	Do ☐	Naddo ☐
Os ydych chi'n ateb "do", nodwch nifer y rhybuddion digwyddiadau dros dro yr ydych wedi eu rhoi ar gyfer digwyddiadau yn yr un flwyddyn galendr os gwelwch yn dda		
A ydych chi eisoes wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer yr un eiddo ble mae cyfnod y digwyddiad: a) yn gorffen 24 awr neu lai cyn; neu'n b) dechrau 24 awr neu lai ar ôl y cyfnod digwyddiad a gynigir yn y rhybudd hwn? (Marciwch “X” yn y blwch sy'n briodol i chi os gwelwch yn dda)	Do ☐	Naddo ☐

6. Cymdeithion a chydweithwyr busnes (Darllenwch nodyn 13 os gwelwch yn dda)		
Oes unrhyw gydymaith sydd gennych wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer digwyddiad yn yr un flwyddyn galendr â'r digwyddiad yr ydych yn rhoi rhybudd digwyddiad dros dro yn ei gylch? (Marciwch “X” yn y blwch sy'n briodol i chi os gwelwch yn dda)	Do ☐	Naddo ☐
Os ydych chi'n ateb "do", os gwelwch yn dda nodwch gyfanswm nifer y rhybuddion digwyddiad dros dro y mae eich cydymaith/cymdeithion wedi eu rhoi yn yr un flwyddyn galendr os gwelwch yn dda		
A oes unrhyw gydymaith i chi eisoes wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer yr un eiddo ble mae cyfnod y digwyddiad: a) yn gorffen 24 awr neu lai cyn; neu'n b) dechrau 24 awr neu lai ar ôl y cyfnod digwyddiad a gynigwyd yn y rhybudd hwn? (Marciwch “X” yn y blwch sy'n briodol i chi os gwelwch yn dda)	Do ☐	Naddo ☐
A oes unrhyw unigolyn yr ydych yn gwneud busnes â hwy mewn gweithgareddau trwyddedadwy wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro am ddigwyddiad yn yr un flwyddyn galendr â'r digwyddiad yr ydych chi yn awr yn rhoi rhybudd digwyddiad dros dro yn ei gylch? (Marciwch “X” yn y blwch sy'n briodol i chi os gwelwch yn dda)	Do ☐	Naddo ☐
Os ydych chi'n ateb "do", nodwch nifer y rhybuddion digwyddiadau dros dro mae eich cydweithiwr/wyr busnes wedi eu rhoi ar gyfer digwyddiadau yn yr un flwyddyn galendr.		
A oes unrhyw unigolyn yr ydych yn gwneud busnes â hwy mewn gweithgareddau trwyddedadwy eisoes wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer yr un eiddo ble mae cyfnod y digwyddiad: a) yn gorffen 24 awr neu lai cyn; neu'n b) dechrau 24 awr neu lai ar ôl y digwyddiad sydd wedi ei gynnig yn y rhybudd hwn? (Marciwch “X” yn y blwch sy'n briodol i chi os gwelwch yn dda)	Do ☐	Naddo ☐

7. Rhestr wirio (Darllenwch nodyn 14 os gwelwch yn dda)	
Byddaf yn (Marciwch y blychau priodol gydag “X” os gwelwch yn dda)	
Anfon dau gopi o'r rhybudd hwn i'r awdurdod trwyddedu ar gyfer yr ardal ble mae'r eiddo wedi'i leoli	☐
Anfon copi o'r rhybudd hwn at brif swyddog yr heddlu ar gyfer yr ardal ble mae'r eiddo wedi'i leoli	☐
Os yw'r eiddo wedi'i leoli mewn mwy nag un ardal awdurdod trwyddedu, anfonwch ddau gopi o'r rhybudd hwn at bob awdurdod trwyddedu ychwanegol	☐
Os yw'r eiddo wedi'i leoli mewn mwy nag un ardal heddlu, anfonwch gopi o'r rhybudd hwn at bob prif swyddog heddlu ychwanegol	☐
Gwnewch neu amgaewch daliad o'r ffi am wneud y cais	☐
Llofnodwch y datganiad yn Rhan 9 isod	

8. Amod (Darllenwch nodyn 15 os gwelwch yn dda)
Mae'n amod o'r rhybudd digwyddiad dros dro hwn ble fo'r gweithgareddau perthnasol trwyddedadwy a ddisgrifir yn Rhan 3 uchod yn cynnwys cyflenwi alcohol, bod yr holl gyflenwadau o'r fath yn cael eu gwneud gan neu gyda chaniatâd defnyddiwr yr eiddo.

9. Datganiadau (Darllenwch nodyn 16 os gwelwch yn dda)	
Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Rwyf yn deall ei bod yn drosedd: (i) gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll yng nghyswllt y rhybudd digwyddiad dros dro hwn, ac ar ei gael yn euog o'r fath drosedd, byddai unigolyn yn agored i ddirwy hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol; a (ii) caniatáu i weithgaredd sydd angen ei drwyddedu gael ei gynnal heb ganiatâd mewn unrhyw le ac ar ei gael yn euog o'r fath drosedd, byddai unigolyn yn agored i ddirwy sydd heb fod yn fwy na £20,000, neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis, neu'r ddau.	
Llofnod	
Dyddiad	
Enw'r Unigolyn sy'n llofnodi	

I'w gwblhau gan yr Awdurdod Trwyddedu

10. Cydnabyddiaeth (Darllenwch nodyn 17 os gwelwch yn dda)	
Rwy'n cydnabod derbyn y rhybudd digwyddiad dros dro hwn.	
Llofnod	Ar ran yr Awdurdod Trwyddedu
Dyddiad	
Enw'r Swyddog sy'n llofnodi	

NODIADAU

Cyffredinol

Yn gyffredinol, dim ond yr heddlu all ymyrryd ar sail atal troseddu i rwystro'r achlysur ble mae gweithgareddau dros dro gyda chaniatâd i'w cynnal, neu i gytuno i addasu trefniadau ar gyfer digwyddiad o'r fath. Fodd bynnag, gall yr awdurdod trwyddedu ymyrryd o'i ewyllysiad ei hun drwy roi gwrth-rybudd os bydd rhywun yn mynd tu hwnt i'r cyntaf, yr ail a'r pedwerydd o'r cyfyngiadau a nodir isod. Os bydd unrhyw un o'r cyfyngiadau isod yn cael eu torri neu os oes gwrth-rybudd wedi ei roi, ni fyddai caniatâd ar gyfer cynnal unrhyw weithgareddau trwyddedadwy, a gellid erlyn defnyddiwr y safle. Mae'r cyfyngiadau yn berthnasol i:

- y nifer o weithiau y gall yr unigolyn (y "defnyddiwr eiddo") roi rhybudd digwyddiad dros dro (50 gwaith y flwyddyn i ddeiliadd trwydded bersonol a 5 gwaith y flwyddyn i bobl eraill);

- y nifer o weithiau y gellir rhoi rhybudd digwyddiad dros dro yn achos unrhyw eiddo penodol (12 gwaith mewn blwyddyn galendr);

- hyd yr amser y gall digwyddiad dros dro barhau i'r amcanion hyn (96 awr);

- hyd mwyaf y cyfnodau cyfansymiol y mae'r rhybuddion digwyddiad dros dro ar unrhyw eiddo unigol yn berthnasol iddynt (15 diwrnod mewn blwyddyn galendr); a

- maint y digwyddiad yn nhermau'r uchafswm o bobl sy'n mynychu ar unrhyw un adef (uchafswm o 499).

I amcanion pennu'r cyfyngiadau cyffredinol o 50 rhybudd digwyddiad dros dro fesul deiliad trwydded bersonol (mewn blwyddyn galendr) a 5 ar gyfer deiliad trwydded nad yw'n bersonol (mewn blwyddyn galendr), bydd rhybuddion digwyddiad dros dro a roddir gan gydymaith neu unigolyn sydd mewn busnes gyda'r defnyddiwr eiddo (a'r busnes hwnnw'n cynnwys cynnal gweithgareddau trwyddedadwy) yn cyfrif tuag at y cyfansymiau hynny. Mae Nodyn 13 isod yn esbonio'r diffiniad o "gydymaith".

Pan fo digwyddiadau dros dro gyda chaniatâd yn digwydd, mae'n rhaid i'r defnyddiwr eiddo sicrhau bod naill ai:

- copi o'r rhybudd digwyddiad dros dro wedi'i ardystio fel un a gydnabuwyd gan yr awdurdod trwyddedu yn cael ei arddangos yn amlwg ar yr eiddo; neu fod
- y rhybudd digwyddiad dros dro wedi'i ardystio fel un a gydnabuwyd gan yr awdurdod trwyddedu yn cael ei gadw yn yr eiddo naill ai dan ei feddiant ei hun neu ym meddiant unigolyn sy'n bresennol ac yn gweithio ar yr eiddo ac y mae wedi ei enwebu i'r pwrpas hwnnw.

Ble fo'r rhybudd digwyddiad dros dro ym meddiant unigolyn enwebedig, rhaid arddangos rhybudd yn amlwg ar yr eiddo sy'n nodi'r ffaith hon a swydd yr unigolyn hwnnw.

Ble nad yw'r rhybudd digwyddiad dros dro neu rybudd yn nodi'r unigolyn enwebedig yn cael ei arddangos, gall cwnstabl neu unigolyn awdurdodedig (er enghraifft, swyddog trwyddedu, swyddog tân neu swyddog iechyd yr amgylchedd) ofyn i ddefnyddiwr yr eiddo ddangos y rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer ei archwilio. Yn yr un modd, ble fo'r unigolyn enwebedig gyda'r rhybudd digwyddiad dros dro yn ei feddiant, gall cwnstabl neu unigolyn awdurdodedig ofyn i'r unigolyn hwnnw ei ddangos ar gyfer ei archwilio. Byddai methiant i ddangos y rhybudd digwyddiad dros dro heb esgus rhesymol yn drosedd.

Dylid nodi hefyd bod y canlynol, ymysg pethau eraill, yn droseddau o dan Ddeddf Drwyddedu 2003:

- gwerthu neu gyflenwi alcohol i blant o dan 18 oed (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £5,000);

- caniatáu gwerthu alcohol i blant o dan 18 oed (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £5,000);

- caniatáu yn fwriadol i unigolyn o dan 18 oed yfed alcohol ar yr eiddo (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £5,000);

- caniatáu ymddygiad afreolus ar yr eiddo (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £1,000);

- gwerthu alcohol i unigolyn sy'n feddw (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £1,000);

- cael alcohol ar gyfer unigolyn sy'n feddw (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £1,000);

- caniatáu'n fwriadol i unigolyn o dan 18 oed werthu neu gyflenwi alcohol oni bai fod y gwerthiant neu'r cyflenwi wedi ei gymeradwyo'n benodol gan y defnyddiwr eiddo neu unrhyw unigolyn dros 18 oed sydd wedi ei awdurdodi ar gyfer y pwrpas hwn gan ddefnyddiwr yr eiddo (mae uchafswm y ddirwy ar euogfarn yn ddirwy hyd at lefel 1 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £200); a

- mynd ati'n fwriadol i gadw neu ganiatáu i'w cadw ar yr eiddo unrhyw nwyddau sydd wedi'u smyglo drwy eu mewnforio heb dalu treth arnynt neu sydd fel arall wedi eu mewnforio'n anghyfreithlon (mae uchafswm y ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £1,000).

Hefyd, ble fo'r safleoedd i'w defnyddio'n bennaf neu'n unig ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar yr eiddo, mae'n drosedd caniatáu i blant o dan 16 oed fod yn bresennol pan fo'r eiddo'n agored i'r pwrpas hwnnw oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn. Yn achos unrhyw eiddo ble mae alcohol yn cael ei werthu neu ei gyflenwi, mae'n drosedd i blentyn o dan 16 oed fod yn bresennol yno rhwng hanner nos a 5am oni bai eu bod gydag oedolyn. Yn y ddwy sefyllfa, mae'r ddirwy o'ch cael yn euog yn ddirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol, sydd ar hyn o bryd yn £1,000.

Nodyn 1
Dim ond unigolyn all roi rhybudd digwyddiad dros dro, ac nid, er enghraifft, sefydliad, glwb neu fusnes. Yr unigolyn sy'n rhoi'r rhybudd yw'r "defnyddiwr eiddo" bwriedig. O fewn busnesau, clybiau neu sefydliadau, bydd angen dynodi un unigolyn fel y defnyddiwr eiddo bwriedig.

Os ydych yn cynnwys cyfeiriad e-bost yn rhan 1(7) neu 1(9), gall yr awdurdod trwyddedu ddefnyddio'r cyfeiriad i anfon unrhyw wrth-rybudd y mae'n ofynnol iddo ei wneud o dan ran 107 Deddf Drwyddedu 2003.

Nodyn 2
I amcanion Deddf Drwyddedu 2003, mae “eiddo” yn golygu unrhyw le. Ni fydd eiddo felly bob amser yn adeilad gyda chyfeiriad ffurfiol a chod post. Gall eiddo gynnwys, er enghraifft, barciau cyhoeddus, tiroedd hamdden a thir preifat.

Nodyn 3
Gellir rhoi rhybudd digwyddiad dros dro i ran o adeilad, megis ystafell sengl neu lain o fewn maes mwy helaeth o dir. Dylech ddarparu disgrifiad clir o'r maes yr ydych yn bwriadu cynnal y gweithgareddau trwyddedadwy arno. Mae hyn yn bwysig, gan y byddai cynnal unrhyw weithgareddau trwyddedadwy y tu allan i faes yr eiddo a ddiogelir gan awdurdod y rhybudd digwyddiad dros dro hwn yn anghyfreithlon, a gallai arwain at erlyniad.

Hefyd, wrth gynnal y digwyddiad bwriedig, byddai angen i ddefnyddiwr yr eiddo allu cyfyngu ar nifer y bobl sydd ar yr eiddo ar unrhyw amser penodol i lai na 500 tra bod y gweithgareddau trwyddedadwy’n digwydd. Os oes mwy na 499 ar yr eiddo tra bod y gweithgareddau trwyddedadwy’n cael eu cynnal, byddai'r gweithgareddau trwyddedadwy felly yn anghyfreithlon a byddai defnyddiwr yr eiddo'n agored i erlyniad. Mae'r ffigwr uchafswm o 499 yn cynnwys, er enghraifft, staff, trefnwyr, stiwardiaid a pherfformwyr.

Nodyn 4
Mae disgrifiad o natur yr eiddo o gymorth i brif swyddog yr heddlu wrth benderfynu os oes unrhyw faterion atal troseddu yn debygol o godi. Dylech ddatgan yn glir bod yr eiddo sydd i'w ddefnyddio yn dŷ tafarn, yn fwyty, yn gae agored, yn neuadd bentref neu'n babell gwrw, er enghraifft.

Nodyn 5
Yn yr un modd, mae disgrifiad o natur y digwyddiad o gymorth i brif swyddog yr heddlu wrth iddo wneud ei benderfyniad i wrthwynebu neu beidio. Dylech ddatgan yn glir os yw'r digwyddiad sy'n cael ei gynnal ar yr eiddo yn briodas gyda bar talu, cyflenwi cwrw mewn marchnad ffermwyr benodol, yn ddisgotéc, perfformiad pedwarawd llinynnol, grŵp gwerin neu fand roc, er enghraifft.

Nodyn 6
Y gweithgareddau trwyddedadwy yw:

- gwerthu neu adwerthu alcohol;
- cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu ar archeb, aelod o glwb;
- darpariaeth adloniant rheoledig; a
- darpariaeth o luniaeth hwyr y nos.

Cyfeiriwch at Atodlenni 1 a 2 Deddf Drwyddedu 2003 os gwelwch yn dda am fanylion llawnach o'r diffiniadau ac eithriadau sy'n gysylltiedig ag adloniant rheoledig a lluniaeth hwyr y nos.

Mae adloniant rheoledig, yn amodol ar amodau ac eithriadau penodol, yn cynnwys:

(a) perfformiad o ddrama;
(b) arddangos ffilm;
(c) digwyddiad chwaraeon dan do;
(d) adloniant bocsio neu ymaflyd codwm;
(e) perfformiad o gerddoriaeth fyw;
(f) chwarae unrhyw gerddoriaeth a recordiwyd;
(g) perfformiad o ddawns;
(h) adloniant o ddisgrifiad tebyg i'r rhai sy'n disgyn o dan (e), (f) neu (g).

Mae adloniant rheoledig hefyd yn cynnwys darpariaeth o “gyfleusterau adloniant” ar gyfer:

(a) gwneud cerddoriaeth;
(b) dawnsio; ac
(c)) adloniant o ddisgrifiad tebyg i'r rhai sy'n disgyn o dan (a) neu (b).

Os nad ydych yn sicr a yw'r gweithgareddau yr ydych yn eu cynnig yn drwyddedadwy, dylech gysylltu â'ch awdurdod trwyddedu am gyngor pellach.

Nodyn 7
Y cyfnod hiraf y gellir defnyddio eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy o dan ganiatâd rhybudd digwyddiad dros dro yw 96 awr (pedwar diwrnod).

Nodyn 8
Dylech ddatgan yma'r amseroedd yn ystod cyfnod y digwyddiad, er enghraifft 48 awr, pan rydych yn bwriadu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy . Er enghraifft, efallai nad ydych yn bwriadu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy drwy gydol cyfnod 48 awr y digwyddiad, ac efallai'n bwriadu gwerthu alcohol rhwng 8.00 o'r gloch y bore a 23.00 o'r gloch ar y ddau ddiwrnod.

Nodyn 9
Ni chaniateir i fwy na 499 fod yn yr eiddo digwyddiad dros dro ar unrhyw un amser pan fo gweithgareddau trwyddedadwy’n cael eu cynnal. Os ydych yn bwriadu i fwy na 499 fynychu'r digwyddiad, dylech gael trwydded eiddo ar gyfer y digwyddiad. Dylai eich awdurdod trwyddedu allu eich cynghori ynghylch hyn. Nid y gynulleidfa, gwylwyr neu gwsmeriaid yn unig sy’n cael eu cynnwys o fewn y ffigwr uchafswm o 499, mae hefyd yn cynnwys, er enghraifft, y staff, trefnwyr, stiwardiaid a'r perfformwyr sydd hefyd yn bresennol ar yr eiddo.

Nodyn 10
Os ydych yn nodi mai dim ond ar yr eiddo y bydd alcohol yn cael ei yfed, byddai angen i chi sicrhau nad oes unrhyw un yn gadael yr eiddo gydag alcohol a gyflenwyd yno. Os yw cyflenwi o'r fath yn digwydd, mae'n bosibl y bydd defnyddiwr yr eiddo yn agored i'w erlyn am gynnal gweithgaredd trwyddedadwy na chafodd ei ganiatáu. Yn yr un modd, os yw'r defnyddiwr eiddo'n rhoi rhybudd mai dim ond oddi ar yr eiddo y bydd yr alcohol a gyflenwir yn cael ei yfed, rhaid iddo ef/hi sicrhau nad yw'r alcohol a gyflenwyd yn cael ei yfed ar yr eiddo. Mae gan y defnyddiwr eiddo hawl i roi rhybudd ei fod ef/hi yn bwriadu cynnal y ddau fath o gyflenwad. I'r pwrpas hwn, mae cyflenwi alcohol yn cynnwys y ddau weithgaredd trwyddedadwy cyntaf a restrir yn nodyn 6 uchod.

Nodyn 11
Gall deiliad trwydded bersonol ddilys a roddwyd o dan Ddeddf Drwyddedu 2003 roi hyd at 50 rhybudd digwyddiad dros dro mewn unrhyw flwyddyn galendr yn amodol ar gyfyngiadau eraill yn Neddf 2003. Dylai'r defnyddiwr eiddo bwriedig sy'n dal y fath drwydded roi'r manylion y gofynnir amdanynt.

Nodyn 12
Fel y nodir dan Nodyn 11, gall deiliad trwydded bersonol ddilys a roddwyd o dan Ddeddf Drwyddedu 2003 roi hyd at 50 rhybudd digwyddiad dros dro mewn unrhyw flwyddyn galendr. Dim ond 5 rhybudd digwyddiad dros dro y gall unigolyn nad yw'n dal trwydded bersonol ddilys eu rhoi yng Nghymru a Lloegr o fewn blwyddyn galendr. Cyfnod blwyddyn galendr yw rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr, yn gynwysedig, mewn unrhyw flwyddyn.

Os yw digwyddiad yn pontio dwy flynedd galendr, bydd yn cyfrif yn erbyn y cyfyngiadau ar rybuddion digwyddiadau dros dro (12 i bob eiddo, 15 diwrnod i bob eiddo, 50 fesul deiliad trwydded bersonol a 5 i rai nad ydynt yn ddeiliaid) am bob blwyddyn; fodd bynnag, dim ond un rhybudd sydd rhaid ei roi.

I amcanion pennu'r cyfyngiadau cyffredinol o 50 rhybudd digwyddiad dros dro fesul deiliad trwydded bersonol (mewn blwyddyn galendr) a 5 i'r unigolyn nad yw'n ddeiliad trwydded (mewn blwyddyn galendr), bydd rhybuddion digwyddiad dros dro a roddir gan gydymaith sydd mewn busnes gyda'r defnyddiwr eiddo (a'r busnes hwnnw'n cynnwys gweithgareddau trwyddedadwy) yn cyfrif tuag at y cyfanswm. Mae Nodyn 13 isod yn diffinio "cydymaith".

Os oes rhybudd digwyddiad dros dro wedi ei roi ar gyfer yr un eiddo, gan yr un defnyddiwr eiddo, ac sy'n dod i rym o fewn 24 awr cyn dechrau cyfnod y digwyddiad o dan y cais presennol neu o fewn 24 awr ar ôl terfyn y cyfnod hwnnw, byddai'r rhybudd digwyddiad dros dro a roddwyd yn annilys a byddai unrhyw weithgareddau trwyddedadwy a gynhaliwyd oddi tano felly'n ddi-drwydded.

I bwrpas pennu p'un ai a yw'r bwlch angenrheidiol o 24 awr wedi ei gynnal, bydd rhybuddion digwyddiadau dros dro a roddir gan gydymaith neu unigolyn sydd mewn busnes gyda'r defnyddiwr eiddo (a'r busnes hwnnw'n cynnwys gweithgareddau trwyddedadwy) yn cyfrif fel petaent wedi eu rhoi gan y defnyddiwr eiddo ei hun. Mae Nodyn 13 isod yn diffinio "cydymaith".

Nodyn 13

"Cydymaith" defnyddiwr eiddo bwriedig yw:

a. priod yr unigolyn hwnnw;
b. plentyn, rhiant, wyr/wyres, taid/nain, brawd neu chwaer yr unigolyn hwnnw;
c. asiant neu unigolyn sy'n gyflogedig gan yr unigolyn hwnnw; neu
d. priod unigolyn o fewn (b) neu (c).

I'r amcanion hyn, bydd unigolyn sy'n byw gydag unigolyn arall fel gŵr neu wraig yr unigolyn hwnnw yn cael ei drin fel priod yr unigolyn.

Bydd y darpariaethau hyn yn amodol ar eu diwygio gan y Ddeddf Partneriaethau Sifil. Mae'r diwygiadau i fod i ddod i rym ar 5 Rhagfyr 2005.

Nodyn 14

Mae'n ofynnol eich bod yn anfon dau gopi o'r rhybudd hwn i'r awdurdod trwyddedu o leiaf ddeng niwrnod gwaith cyn dechrau'r gweithgareddau trwyddedadwy bwriedig. Bydd yr awdurdod yn ardystio un o'r ddau gopi a'i ddychwelyd atoch fel cydnabyddiaeth. Bydd hon yn dystiolaeth bwysig eich bod wedi rhoi rhybudd a phryd y rhoesoch y rhybudd i amcanion y Ddeddf. Gall eiddo fod mewn dwy ardal awdurdod trwyddedu, er enghraifft, lle mae adeilad neu gae yn pontio ffin yr awdurdod lleol. Pan fo hynny'n digwydd, rhaid anfon dau gopi at y ddau awdurdod trwyddedu a ddynodwyd, ynghyd â'r ffi briodol ym mhob achos. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen i chi dderbyn cydnabyddiaeth gan yr holl awdurdodau trwyddedu perthnasol.

Rhaid anfon un copi i brif swyddog yr heddlu yn yr ardal ble y lleolir yr eiddo o leiaf ddeng niwrnod gwaith cyn dechrau'r gweithgareddau trwyddedadwy bwriedig. Pan fo'r eiddo wedi ei leoli mewn dwy ardal heddlu, bydd angen anfon copi pellach i'r ail awdurdod heddlu.

Nodyn 15

O dan Deddf Drwyddedu 2003, rhoddir pob rhybudd digwyddiad dros dro yn amodol ar amod gorfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol, mewn achosion lle bo'r gweithgareddau trwyddedadwy yn cynnwys cyflenwi alcohol, fod yr holl gyflenwadau o'r fath yn cael eu gwneud gan neu gyda chaniatád y defnyddiwr eiddo a enwir. Os torrir yr amod hwn, bydd y defnyddiwr eiddo a'r unigolyn sy'n gwneud y cyflenwi dan sylw yn agored i'w herlyn. I'r pwrpas hwn, mae cyflenwi alcohol yn cynnwys y ddau weithgaredd trwyddedadwy cyntaf a restrir yn nodyn 6 uchod.

Nodyn 16

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll yn y rhybudd digwyddiad dros dro, neu yng nghyswllt y rhybudd digwyddiad dros dro. (Ystyrir bod unigolyn yn gwneud datganiad ffug os yw'n cynhyrchu, rhoi, llofnodi neu'n gwneud defnydd arall o ddogfen sy'n cynnwys datganiad ffug.) Gall gwneud hynny arwain at erlyniad a dirwy o hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol.

Nodyn 17

Ni ddylech lenwi adran 10 y rhybudd hwn, sydd ar gyfer defnydd yr awdurdod trwyddedu. Byddant yn llenwi'r adran hon ac yn dychwelyd un o'r copïau yr ydych wedi eu hanfon atynt fel cydnabyddiaeth o'r rhybudd yr ydych wedi ei roi.